**Cadeiryddion Pwyllgorau Ardal**

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Gofalu fod Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru yn effeithlon ac yn cael ei redeg yn dda |
| **Ymrwymiad amser bras**: | Amrywio ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Mae'n cynnwys paratoi agenda a mynychu pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor Ardal. Cynrychioli'r Pwyllgor Ardal mewn digwyddiadau allanol yn ôl y galw. |
| **Sgiliau a phrofiad:** | Gwybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref / Llywodraeth Leol<br>Cefndir mewn arweinyddiaeth a rheolaeth<br>Sgiliau cadeirio<br>Sgiliau adeiladu tîm<br>Sgiliau datrys problemau da<br>Hawdd ymwneud ag ef/â hi ac ar gael<br>Cyfathrebydd rhagorol<br>Dibynadwy ac ymrwymedig<br>Cyfeillgar<br>Hawdd ymwneud ag ef/â hi<br>Arweinydd<br>Brwdfrydig<br>Bodlon gwrando ar syniadau newydd<br>Rhwydweithio ac eiriolaeth<br>Hygrededd<br>Cefnogol i Gynghorwyr Cymuned a Thref eraill / Clercod |
| **Cefnogaeth / Hyfforddiant:** | Cefnogaeth gan y Swyddog Datblygu Rhanbarthol sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor Ardal, Dirprwy Brif Weithredwr a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru yn ôl y galw ynghyd â Chadeirydd ac Is Gadeirydd Un Llais Cymru trwy gyfarfodydd chwarterol.<br><br>Mae Cadeiryddion Pwyllgor Ardal yn cael eu hannog i gymryd hyfforddiant sgiliau cadeirio. |

Prif Dasgau

- Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Ardal a chydlynu holl weithredoedd a gweithgarwch cynrychioliadol y Pwyllgor Ardal.

- Dylai Cadeiryddion weithio'n agos gyda Swyddogion Datblygu a'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol cyn gweithredu unrhyw fentrau newydd a dylent weithio hefyd o fewn fframwaith llywodraethu sefydledig Un Llais Cymru.

- Cymell eraill mewn ffordd gydlynol a blaengar.

- Cynrychioli'r Pwyllgor Ardal ar adegau ffurfiol ac i gyrff allanol h.y. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Awdurdod Unedol ac ati

- Cynrychioli'r Pwyllgor Ardal yng nghyfarfodydd chwarterol Cadeiryddion Pwyllgorau Ardal a bwydo materion neu argymhellion rhanbarthol i gyfarfodydd Cadeiryddion Pwyllgorau Ardal ac yn y pendraw i'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol

Manteision bod yn Gadeirydd Pwyllgor Ardal:

- Cefnogi eich cymuned leol – rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned, boddhad personol o wybod eich bod wedi helpu eraill.

- Boddhad o wneud rhywbeth i wneud gwahaniaeth yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref a'r rhanbarth yn ogystal ag yn eich cymuned leol.

- Datblygu eich diddordebau gyda golwg efallai ar ddod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol neu ran arall o drefniadau llywodraethu Un Llais Cymru.

- Buddion cymdeithasol – cyfle i fynd allan, mwynhau a chyfarfod â phobl newydd.

**Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Rhanbarthol Un Llais Cymru**